

# AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

15 Mehefin 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd ML Evans, Mr D Ellis, y Cynghorydd P Harries, y  
Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, y Cynghorydd L Jenkins, y  
Cynghorydd R Kilmister, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd PJ  
Morgan, y Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas, y  
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

Roedd Mrs E Williams a Ms K Maddock-Jones, a oedd yn cymryd rhan yng  
nghynllun mentora'r Awdurdod hefyd yn bresennol.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10:30 - 11:40)

## 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, Ms C  
Gwyther a'r Cynghorydd D Rees.

## 2. Datgelu Buddiant

Datgelwyd buddiant personol ond nid niweidiol gan y Cynghorydd Mrs L  
Jenkins ynghylch Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn Solfach (*gweler Cofnod 15*)  
ac arhosodd yn y cyfarfod gan gymeryd rhan lawn yn y drafodaeth.

Cafwyd datgeliad o fuddiant niweidiol gan y Cynghorydd RM Lewis  
ynghylch Strategaeth Datblygu Economaidd a Chynllun Gweithredu Sir  
Benfro (*gweler Cofnod 16*) ac ymneilltuodd o'r cyfarfod.

## 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2016 eu cyflwyno i'w  
cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill  
2016 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion:

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.



## 5. Adroddiadau o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cafodd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 9 Mai 2016
- (ii) y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016
- (iii) y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016

## 6. Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni wedi eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth. Mae'r ymgynghoriad bellach wedi'i gynnal, ac ynghlwm wrth yr adroddiad roedd y sylwadau a gafwyd ar bob dogfen a'r newidiadau arfaethedig iddynt. Roedd manylion yr ymgynghoriad hefyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r camau nesaf. Roedd y wybodaeth hon wedi'i rhoi i'r Aelodau mewn gweithdy yn ddiweddar hefyd.

Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad a gofynnodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc am newid ychwanegol i'r Cytundeb Cyflawni, sef na fyddai'r Awdurdod yn cynhyrchu CDs o'r cynllun ar gyfer eu dosbarthu oherwydd byddai'r holl ddogfennau ar gael ar wefan yr Awdurdod ac y gellid eu cael ym mhob Canolfan Ymwelwyr/Gwybodaeth.

Dywedodd un Aelod nad oedd mis Awst yn fis da i ddechrau'r cyfnod o gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol gan nad oedd Cynghorau Cymuned fel arfer yn cyfarfod yn ystod y mis hwnnw, ac felly i bob pwrpas dim ond dau fis fyddai ganddynt i ymgysylltu â'u cymunedau a gwneud eu cyflwyniadau. Atebodd y Swyddogion ei bod yn anodd newid yr amserlen gan ei bod eisoes yn eithaf tyn ac roedd yn debygol o fod tua chanol / diwedd Awst cyn y byddai'r canllawiau a gymeradwywyd yn cael eu dosbarthu. Fodd bynnag, gellid cyflwyno safleoedd cyn i'r cyfnod ymgynghori ddechrau, yn seiliedig ar y canllawiau drafft; gellid rhoi cymorth i Gynghorau Cymuned os oeddent am wneud hynny.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â safleoedd penodol a'r ffordd ymlaen ar gyfer y pentrefi hynny lle'r oedd diffyg capasiti yn y system garthffosiaeth yn golygu nad oedd datblygiad pellach yn bosibl. Mewn ymateb i'r pwynt olaf hwn, dywedodd y swyddogion y dylai'r tir yn yr aneddiadau hyn gael ei gyflwyno fel Safleoedd Ymgeisiol oherwydd gallai gwelliannau i'r Gweithfeydd Trin Carthion gael ei wneud yn



ddiweddarach yn ystod cyfnod y cynllun. Cytunwyd hefyd y byddai'r ffigurau ar gyfer Feidr Eglwys yng Nhrefdraeth yn cael eu diweddarau er mwyn osgoi dryswch.

**PENDERFYNWYD:**

- a) cymeradwyo ymateb y Swyddogion i'r sylwadau a ddaeth i law ar yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni.
- b) cymeradwyo Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn amodol ar y diwygiadau yn Atodiad 2 ac Atodiad 5 i'r adroddiad a'r rhai a godwyd yn y cyfarfod.
- c) rhoi caniatad i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**7. Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Swyddog Gwerthuso Ymchwil a Chynaliadwyedd fod drafft o'r Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd wedi'i gymeradwyo ganddynt yn y cyfarfod diwethaf ar gyfer ymgynghori. Roedd yr ymgynghoriad bellach wedi'i gynnal ac roedd manylion y sylwadau a dderbyniwyd, y camau gweithredu arfaethedig a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth yr adroddiad. Dywedwyd yn y cyfarfod fod un sylw hwyr wedi'i gyflwyno, ond nid oedd ynddo unrhyw fanylion, felly dim ond ei nodi y gellid ei wneud. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi eu gwneud o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori.

Roedd yr Aelodau yn bryderus ynghylch y newid a wnaed i Amcan Cynaliadwyedd 2 gan eu bod yn dal i deimlo y byddai hyn yn sterileiddio rhannau helaeth o Sir Benfro lle nad oedd unrhyw wasanaethau bws - sefyllfa nad oedd yn debygol o wella. Dywedodd y swyddogion bod angen y cyfeiriad at leihau teithio mewn car preifat er mwyn cydymffurfio â'r Polisi Cenedlaethol; fodd bynnag, byddai'r Aelodau'n cael y cyfle i drafod y mater hwn yn fanylach yng Ngweithdy Adolygu'r CDLI nesaf i'w gynnal fore'r 27 Gorffennaf.

**PENDERFYNWYD:**

- a) cymeradwyo ymateb y Swyddogion i'r sylwadau a ddaeth i law ar yr Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd.
- b) cymeradwyo'r Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd yn amodol ar y newidiadau yn Atodiad 2 yr adroddiad.



## 8. Cynllun Corfforaethol 2016/17

Atgoffwyd yr aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod, o dan y Mesur Llywodraeth Leol, gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol yn y flwyddyn ariannol newydd. Roedd y ddeddfwriaeth ddiweddar Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n dangos sut y byddant yn cyflawni'r nodau llesiant. Er mwyn lleihau dyblygu, bwriadwyd i'r Cynllun Corfforaethol fodloni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod, a allai hefyd gael eu hystyried yn amcanion gwella.

Roedd Cynllun Corfforaethol drafft wedi ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Chwefror pan gafodd ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori. Dim ond un sylw a oedd wedi dod i law, ac roedd yn cefnogi'r cynllun. Bellach, gofynnir i'r Aelodau ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** bod Cynllun Corfforaethol 2016/17 yn cael ei gymeradwyo.

## 9. Cynllun Gwella 2015/16 Rhan 2

Dywedodd y Rheolwr Busnes a Gwella ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn 31 Hydref, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Roedd hwn yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith arfaethedig yn y Cynllun Gwella Rhan 1 ar gyfer y flwyddyn 2015/16. Nododd bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a gynhwysir yn y Cynllun wedi cael ei chyflwyno eisoes yn y Pwyllgorau Adolygu.

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Rheolwr Busnes a Gwella gan y byddai'n ymddeol yn fuan, ac roedd yn dymuno diolch iddo am ei gyfraniad i waith yr Awdurdod dros bron ddeng mlynedd ar hugain.

**PENDERFYNWYD** bod Rhan 2 y Cynllun Gwella ar gyfer 2015/16 yn cael ei gymeradwyo.

## 10. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Soniwyd bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau cyhoeddus baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i ddiweddarau o leiaf bob pedair blynedd. Roedd y Cynllun gerbron yr Awdurdod yn un a oedd yn disodli'r un a gyhoeddwyd yn 2012 ac atgoffwyd yr Aelodau bod y drafft o'r Cynllun wedi'i gyflwyno iddynt ym mis



Mawrth cyn ymgynghori yn ei gylch. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law am y Cynllun.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 yn cael ei gymeradwyo.

#### **11. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16**

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi cael ei adolygu gan aelodau'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol yn ei gyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mai 2016. O ganlyniad, roedd newidiadau wedi'u gwneud o fewn y ddogfen o ran agendâu electronig/cyfarfodydd di-bapur ac o ran effaith y Safonau Iaith Gymraeg a gallu'r Awdurdod i gydymffurfio â hwy.

Roedd y Datganiad yn cyfeirio at Adolygiad Llywodraeth Cymru o Dirweddau Dynodedig a gofynnodd un Aelod am yr amserlen ar gyfer adrodd ar ganlyniadau'r Adolygiad hwnnw. Atebodd y Prif Weithredwr fod Cadeirydd yr Adolygiad i fod i adrodd i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Gorffennaf, ac y byddai'r broses yn dod i ben erbyn diwedd 2016. Cytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod cyfarfod nesaf yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16 yn cael ei gymeradwyo.

#### **12. Cyllid Ychwanegol ar gyfer Prosiectau Datblygu Cynaliadwy**

Soniwyd fod Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar 18 Mai 2016 wedi ystyried pedwar cais a oedd yn deilwng o gefnogaeth ariannol. Fodd bynnag, nid oedd digon o arian i gefnogi dau o'r prosiectau ac roedd y Pwyllgor, felly, wedi gofyn am £21,390.50 o gyllid o gronfa wrth gefn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Rhoddodd Gweinyddwr y Gronfa amlinelliad byr o'r ddau brosiect y ceisiwyd cyllid ar eu cyfer. Roedd Coleg y Môr eisiau cyllid i gyflogi Swyddog ar gyfer prosiect i ddatblygu'r cysyniad o Goleg y Môr yn yr Ocean Lab yn Wdig. Bwriedir iddi fod yn ganolfan o ragoriaeth, addysg, ymchwil wyddonol, monitro amgylcheddol a hefyd yn atyniad i ymwelwyr. Yr ail brosiect oedd Cysylltiadau Naturiol, menter ymgysylltu beilot a anelwyd yn benodol at fusnesau twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol er mwyn eu hannog i fabwysiadu arferion rheoli tir sy'n darparu cynefinoedd addas ar gyfer bywyd gwylt a hefyd i hyrwyddo gweithgareddau lleol



'ymwybyddiaeth o fywyd gwyllt' i ymwelwyr a phrofiadau a fydd yn dod â manteision i'r amgylchedd a hefyd i'r busnes.

Gofynnodd yr Aelodau am ariannu'r ddau brosiect yn y dyfodol, a hefyd balans newydd y gronfa wrth gefn pe bai'r arian yn cael ei ryddhau. Atebodd y Gweinyddwr bod y ddau yn brosiectau peilot a oedd yn chwilio am arian ar gyfer camau cynnar y datblygiadau o fewn gweledigaeth brosiect ehangach, a chadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod £200,000 o arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn 2015/16.

Gofynnodd Aelod arall a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar adroddiad yn amlinellu canlyniadau prosiectau a gafodd arian o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ers 2000. Atebodd y Gweinyddwr fod hyn mewn llaw ac y byddai adroddiad gerbron yr Awdurdod yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fodd bynnag, yn y cyfamser efallai y byddai Adroddiad Blyneddol diweddaraf y Gronfa Datblygu Cynaliadwy o ddiddordeb i'r Aelodau a chytunwyd y dylai gael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau.

**PENDERFYNWYD** bod y cais i ryddhau £21,390.50 o gronfa wrth gefn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei gymeradwyo.

### **13. Newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau**

Dywedodd y Swyddog Monitro bod dau Offeryn Statudol newydd wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2016 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016. Roedd y newidiadau allweddol a gyflwynwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Dywedodd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu'r newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau erbyn 26 Gorffennaf 2016 yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**PENDERFYNWYD** bod y fersiwn ddiwygiedig o God Ymddygiad yr Aelodau yn cael ei mabwysiadu ar unwaith.

### **14. Rheoleiddio Llechfeddiant dros dir sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol yn Nhraeth Poppit**

Dywedwyd bod yr Awdurdod, yn 1999, wedi caffael rhydd-ddaliad y tir ag ymyl las ar y llun a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad fel ychwanegiad at y tir cyffiniol mwy o faint a oedd eisoes yn ei feddiant. Ar y dyddiad caffael roedd y tir hwn eisoes yn ddarostyngedig i hawl tramwy wedi'i gofnodi mewn gweithredoedd o blaid yr eiddo preswyl a elwir yn Briar Bank.



Hefyd, roedd perchnogion Briar Bank wedi rheoli a chynnal y lleiniau meddal wedi'u tirlunio ar y naill ochr i'r fynedfa yn ogystal â chodi sied storio fechan. Yr oedd y ddau achos yn llechfeddiant parhaus dros dir yr Awdurdod ac yn ymestyn i oddeutu 300 metr sgwâr; roedd yn dyddio'n ôl i o leiaf 1992 fel y dangosir gan luniau o'r awyr.

Roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad y byddai'n briodol cymhwyso darpariaethau polisi llechfeddiant mabwysiedig yr Awdurdod i reoleiddio'r defnydd parhaus a meddiant o'r tir ag ymyl goch ar y ffotograff gan Briar Bank drwy drosglwyddo'n ffurfiol deitl rhydd-ddaliadol yr Awdurdod iddynt. Roedd y swyddogion wedi cytuno'n amodol ar delerau â pherchennog Briar Bank i drosglwyddo'r tir ag ymyl goch iddynt am bris o £3,000 yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**, yn unol â'r polisi llechfeddiant a fabwysiadwyd, awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen i drosglwyddo'r tir ag ymyl coch ar y ffotograff i berchenogion Briar Bank ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**15. Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth ac ystyried Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i leihau hawliau Datblygu a Ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd yr Ardaloedd Cadwraeth - Solfach**

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) eisoes wedi cael eu gwneud ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Tyddewi, Aber-bach, Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth, a bod yr Ardaloedd Cadwraeth a oedd yn weddill yn destun adolygiad parhaus. Roedd chwe ardal cadwraeth wedi bod yn destun arolwg yn ddiweddar ac o'r rheini, barnwyd bod Solfach mewn perygl o golli manylion bach, ond arwyddocaol, yn enwedig ffenestri.

Roedd Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gmwys i dai annedd anrhestredig o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac roedd tua 120 o'r rhain yn Solfach, 78% o gyfanswm y stoc adeiladau. Roedd manylion y rheolaethau cynllunio arbennig a gynigir o dan y Cyfarwyddyd wedi eu nodi yn yr adroddiad ac yn gryno roedd y rhain yn ymwneud â ffenestri, drysau, lloriau caled, gathiau a ffensys.

Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol yn ogystal â hysbysu meddiannydd pob tŷ annedd yr effeithir arno, gyda chyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch y Cyfarwyddyd. Yna, roedd gan yr Awdurdod chwe mis i benderfynu a ddylid cadarnhau'r



Cyfarwyddyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai adroddiad am yr ymgynghoriadau gael ei roi ger eu bron fewn y cyfnod hwnnw.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r argymhellion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad gael eu diwygio i ofyn i'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau gyfarfod â Chyngor Cymuned Solfach ar y cyfle cyntaf posibl.

**PENDERFYNWYD:**

- a) bod Cyfarwyddiadau yn cael eu gwneud ac yn cael eu gweithredu yn unol ag Erthygl 4(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i atal y datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A ac F o Ran 1, Dosbarth A o Ran 2 a Dosbarth B o Ran 31 o'r Gorchymyn rhag cael ei wneud mewn perthynas â'r tir o fewn Ardal Gadwraeth Solfach a ddangosir ag ymyl goch ar y mapiau yn y Cyfarwyddiadau drafft a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.
- b) bod adroddiad am y sylwadau yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod, yn ceisio cadarnhad o'r Cyfarwyddiadau o fewn y cyfnod statudol o chwe mis wedi gwneud y Cyfarwyddiadau.
- c) bod y Swyddog Cadwraeth Adeiladau yn cyfarfod â Chyngor Cymuned Solfach ar y cyfle cyntaf posibl.

*[Datgelodd y Cyngorydd RM Lewis fuddiant yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod yn ystody drafodaeth].*

**16. Strategaeth Datblygu Economaidd ddrafft Sir Benfro a Chynllun Gweithredu 2016-2021**

Soniwyd bod Cyngor Sir Penfro ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Datblygu Economaidd a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sir Benfro. Roedd cam cyntaf y broses yn canolbwyntio ar ddatblygu Proffil Economaidd Sir Benfro a oedd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Medi 2015. Roedd yr ail gam yn seiliedig ar gynhyrchu Strategaeth Datblygu Economaidd Sir Benfro a Chynllun Gweithredu 2016 - 2021 ac roedd drafft o'r fersiwn ddiweddaraf ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cododd yr Aelodau nifer o bwyntiau, yn enwedig o ran Adran 2, Gyrwyr Newid yn Sir Benfro. Credent o dan 'cryfderau', y dylid rhoi mwy o sylw i dirwedd Sir Benfro, nid dim ond yr arfordir ond hefyd yr adeiladau hanesyddol sy'n cael eu hystyried yn bwysig dros ben. O dan 'gwendidau' mynegwyd pryder ynghylch y frawddeg "Local governance can result in some constraints to economic progress" gan y teimlwyd bod angen





eglurhad am hyn; a hefyd roedd angen am fwy o gefnogaeth hyfforddi ar gyfer y diwydiant lletygarwch a rhagor o unedau diwydiannol yn y Parc Cenedlaethol i gefnogi busnesau bach a chanolig. Teimlwyd bod cyfleoedd ychwanegol i greu canolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil / technoleg / arloesedd / ynni / addysg forol yn ogystal ag ymwneud â safle'r sir fel lleoliad ffilm a thrwy dwristiaeth arloesol fel crefftau a gerddi traddodiadol.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai'r Llwybr Cenedlaethol, yn ôl pob tebyg, oedd ased fwyaf gwerthfawr Sir Benfro, gan ei fod o fudd mawr i lawer o fusnesau bach a chanolig. Cytunodd i ddsbarthu ymateb drafft yr Awdurdod i'r Aelodau cyn ei gyflwyno.

**PENDERFYNWYD:**

- a) bod Strategaeth Datblygu Economaidd ddrafft Sir Benfro a'r Cynllun Gweithredu 2016 - 2021 yn cael eu nodi; a
- b) bod y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Sir Penfro i'w hystyried wrth gwblhau'r ddogfen.

**17. Safonau Iaith Gymraeg: Adroddiad Blynyddol**

Atgoffwyd yr aelodau fod yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi'r Safonau Iaith Gymraeg yr oedd yr Awdurdod i gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei fusnes a'r dyddiadau ar gyfer eu cyflawni. Roedd yn rhaid cydymffurfio â'r mwyafrif erbyn 30 Mawrth 2016, a'r gweddill erbyn 30 Medi 2016. Roedd y Safonau yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod a fu mewn grym tan nawr.

Er bod y Safonau newydd ddim ond wedi bod yn eu lle am ddiwrnod yn y flwyddyn ariannol 2015/16, roedd gofyn i'r Awdurdod lunio Adroddiad Blynyddol yn unol â gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio ac roedd copi ohono wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

